Credyd

Beth ddywed y gyfraith

Rhaid i unrhyw un sy'n cynnig credyd gael eu trwyddedu gan y Swyddfa Masnach Deg.

Rheolir y mwyafrif o **gytundebau credyd** gan Ddeddf Credyd Defnyddwyr 1974. Os yw'ch cytundeb o dan reolaeth y Ddeddf, fe'i gelwir yn **gytundeb rheoledig**. Os oes gennych gytundeb rheoledig, mae gennych hawl i:

- gael gwybodaeth benodol wedi'i gynnwys yn eich cytundeb, megis **y swm** a fenthycir gennych, **hyd** eich cytundeb, **cyfraddau llog**, unrhyw **daliadau**, **swm ac amlder y taliadau** a'ch **hawliau canslo** (os yn gymwys- gweler isod). Rhaid iddo hefyd gynnwys y **taliad llawn** o gredyd a'r **Gyfradd Ganrannol Flynyddol (APR),** sef cost flynyddol y credyd ar ôl adio'r llog a'r holl daliadau eraill at ei gilydd. Os na chynhwysir y wybodaeth hon, efallai **na ellir gorfodi'r** cytundeb heb orchymyn llys.
- gael copi o'r cytundeb, sydd ddim yn orfodol hyd nes y'i llofnodir gennych chi **a'r** credydwr . Os nad ydych wedi llofnodi'r cytundeb neu dderbyn copi ohono, mae'n bosib y gellir gorfodi'r cytundeb heb orchymyn llys
- gael **datganiad** neu gopi o ddogfennau eraill pan wneir cais. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu swm bychan.
- gael gwybodaeth am y gweithdrefnau i'w dilyn, megis anfon **rhybudd diffygdalu** atoch, cyn i achos llys ddigwydd.

Ydy eich cytundeb credyd chi yn gytundeb rheoledig?

Bydd gosodiad o dan bennawd eich cytundeb yn dweud a ydyw wedi'i reoli gan Ddeddf Credyd y Defnyddwyr. Mae'r mwyafrif o'r cytundebau sy'n ymwneud â chredyd neu daliadau llogi (er enghraifft, cardiau credyd, benthyciadau personol, a'r mwyafrif o gredydau catalog a chytundebau llogi) yn debygol o gael eu rheoli. Mae yna rai eithriadau, megis credyd ar gost isel oddi wrth undeb credyd. Hefyd, os drefnoch chi gytundeb cyn 6 Ebrill 2008, roedd cyfyngiad ar y swm o gredyd oedd o dan reolaeth y Ddeddf. Os ydych chi am wirio os yw'ch benthyciad yn un rheoledig, mynnwch gyngor gan ymgynghorydd dyled profiadol, er enghraifft mewn Canolfan Cyngor ar Bopeth (gweler isod)

Prynu ar gredyd

Cyn gwneud cais am gredyd, fe ddylech chi weithio allan eich treuliau rheolaidd er mwyn sicrhau eich bod yn gallu fforddio y taliadau ychwanegol bob mis. Bydd angen i chi ganiatau rhai symiau ychwanegol megis ar gyfer torri gwallt neu wyliau ac ar gyfer achosion brys megis gwaith trwsio yn y cartref. Bydd y camau canlynol yn eich helpu i ddod o hyd i'r cynnig gorau:

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- **chwilio am y cynnig gorau,** er mwyn gweld os allwch chi brynu'r nwyddau neu'r gwasanaeth yn rhatach mewn man arall, gan y bydd hyn yn lleihau'r swm y bydd yn rhaid i chi ei fenthyca.
- **cymharu cost** mathau gwahanol o gredyd trwy edrych ar yr **APR** (gweler uchod) ynghyd â **hyd** y cytundeb. Gallai benthyciad llog penodol y gallwch chi drefnu eich hun fod yn rhatach na threfnu benthyciad trwy gyflenwr. Os ydych yn defnyddio eich cerdyn credyd, ceisiwch amcangyfrif pa mor hir y cymer i chi dalu yn ôl, gan gymryd y taliadau llog misol i ystyriaeth.
- Efallai y cewch eich temtio gan gynigion di-log neu gynigion arbennig eraill. Edrychwch ar gyfanswm cost y cynnig – efallai y gallwch brynu'r nwyddau yn rhatach mewn man arall. Os cynigir credyd di-log am gyfnod cyfyngedig, gwnewch yn siwr eich bod yn gwirio beth sy'n digwydd os nad ydych yn gorffen talu yn ystod y cyfnod hwn. Yn aml mae llog ar raddfa uchel yn daladwy o ddechrau'r cytundeb.
- Os cynigir **yswiriant** i chi sy'n ddigon at eich taliadau mewn amgylchiadau arbennig, gwriwch fod y sicrwydd a roddir yn iawn i chi ac nad ydych yn syrthio i un o'r grwpiau eithriedig. Mae rhai polisiau yn eithrio, er enghraifft, pobol hunan gyflogedig neu wragedd beichiog. Fedrwch chi ddod o hyd i sicrwydd rhatach neu fwy cynhwysol mewn man arall?
- **Peidiwch** â threfnu benthyciad sydd wedi'i warantu ar eich cartref heb ystyried y canlyniadau. Os ydyw eich amgylchiadau yn newid a chwithau'n methu cadw at eich rhandaliadau misol, fel allech chi **golli eich cartref**.

Mae'n rhaid i brocer ddweud wrthych p'un ai ei fod yn annibynnol neu'n gysylltiedig i unrhyw fenthycwyr. Os ydynt yn gysylltiedig ag un neu fwy o fenthycwyr, gallai hyn olygu na fyddant yn dweud wrthych am yr ystod lawn o gynhyrchion ar y farchnad. Os ydych wedi bod yn trafod gyda brocer ac os nad yw wedi trefnu benthyciad o fewn chewch mis , yr uchafswm y gall ofyn amdano yw £5.

Cyn i chi arwyddo cytundeb credyd rheoledig, mae rhaid i'r gwerthwr roi dogfen i chi sy'n dwyn y teitl **"Gwybodaeth cyn-gontract'**. Dylai hwn gynnwys gwybodaeth am y benthyciad, gan gynnwys dyfynbris ariannol, termau ac amodau, hawliau canslo a therfyniad. Dylai'r ddogfen fod yn hawdd iawn i'w darllen, ac mewn ffurf y gallwch fynd â hi i ffwrdd gyda chi, er mwyn i chi gymharu'r benthyciad â chynigion eraill. Mae'n rhaid i'r gwerthwr hefyd esbonio nodweddion y cytundeb sy'n ei wneud yn anaddas neu anfanteisiol ar gyfer rhai pobl. Dylech hefyd gael eich rhybuddio o'r hyn fydd yn digwydd os nad ydych yn talu ar amser, er enghraifft, costau am daliadau hwyr a'r posibilrwydd o gymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.

Nwyddau neu wasanaethau diffygiol a brynwyd ar gredyd

Os ydych yn talu am nwyddau neu wasanaethau ac os yw pethau yn mynd o chwith, mae'n bosib y gallwch hawlio iawndal o'r cwmni credyd yn hytrach na'r cwmni a werthodd y nwyddau neu'r gwasanaethau i chi. Er enghraifft, mae'n bosib eich bod wedi prynu peiriant golchi dillad sy'n ddiffygiol neu nid yw eich cysylltiad â'r rhyngrwyd yn gweithio'n gywir. Gelwir hyn yn gwneud **hawliad atebolrwydd cyfartal**.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gallai hyn fod yn ddefnyddiol os yw'r masnachwr neu'r cyflenwr wedi mynd allan o fusnes neu os nad oes arian ganddo i roi iawndal i chi.

Os ydych am hawlio, mae'n rhaid i'r nwyddau neu wasanaethau gostio mwy na £100 a llai na £30,000. Os na fydd y cwmni credyd yn derbyn cyfrifoldeb, gallech gwyno i Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Gallwch hefyd gysylltu â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth leol, neu gysylltu â Chyswllt Defnyddwyr ar 0845 404 0506.

Canslo cytundeb credyd rheoledig

Gennych chi:
Mae gennych yr hawl i ganslo cytundeb credyd o fewn 14 diwrnod o lofnodi'r cytundeb credyd. Nid oes yn rhaid i chi roi rheswm.

Mae'n hanfodol eich bod yn **gweithredu'n gyflym** a hysbysu'r credydwr ar unwaith yn ysgrifenedig eich bod am ganslo. Mae'n well eich bod yn gwneud hyn yn ysgrifenedig ond gallwch ei wneud ar lafar os nad oes gennych ddigon o amser. Gwnewch nodyn o'r hyn ddywedwyd ac enw'r person y siaradoch chi ag ef/hi. Dylech chi wedyn gadarnhau hyn mewn llythyr. Gwnewch gopi o'ch llythyr ac anfonwch ef trwy ddosbarthiad a gofnodwyd.

Unwaith bod yr 14 diwrnod wedi mynd heibio, fe gynhwysir unrhyw hawliau sydd gennych i ganslo eich cytundeb yn eich contract a bydd yn dibynnu ar y math o gredyd a drefnwyd gennych:

- Gellir canslo **Cytundebau cardiau credyd** trwy ysgrifennu at y credydwr**,** gan gynnwys y cerdyn/cardiau **wedi'u torri'n ddarnau** a gwneud trefniadau i dalu yn ôl unrhyw arian sy'n ddyledus. Os oes gennych ail gerdyn yn enw rhywun arall, dylid dychwelyd hon hefyd
- Gellir terfynu **cytundebau hur-bwrcas neu werthiant amodol** unrhyw adeg trwy roi rhybudd eich bod am ddychwelyd y nwyddau a chanslo'r cytundeb. Gall hyn fod yn opsiwn drud, gan y byddwch chi'n atebol am hanner y cyfanswm cyfan sy'n daladwy o dan y cytundeb ynghyd ag unrhyw ôl-ddyledion sy'n weddill ac iawndal am unrhyw ddifrod a achoswyd i'r eitem. Unwaith y byddwch wedi talu'r drydedd rhan o'r cyfanswm cyfan sy'n daladwy o dan y cytundeb, ni all y cwmni credyd adfeddiannu'r nwyddau heb orchymyn llys. Mae adfeddiannu heb orchymyn llys o dan yr amgylchiadau hyn yn diddymu'r cytundeb ac felly gall y dyledwr ennill yn ôl yr holl daliadau a wnaed.
- Gellir terfynu **cytundebau hurio rheoledig** unrhyw adeg ar ôl y deunaw mis cyntaf trwy roi rhybudd, oddieithr y bydd cyfnod byrrach yn cael ei ddarparu yn y cytundeb. Y rhybudd lleiafswm y bydd yn rhaid i chi ei roi yw'r rhybudd a nodir yn eich cytundeb, y cyfnod rhwng taliadau neu dri mis, pa un bynnag sy fyrraf. Mae yna rai eithriadau i'r rheol hon ar gyfer defnyddwyr busnes a hurio drud (ar hyn o bryd y rheiny â thaliadau dros £1500 y flwyddyn) Mewn rhai achosion, efallai y bydd hawl gennych i setlo'r cytundeb yn gynnar a derbyn ad-daliad. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo unrhyw ad-daliad yn cael ei drefnu yn ôl y gyfraith. Gall ymgynghorydd profiadol, er enghraifft, yn eich Canolfan

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cyngor ar Bopeth leol, eich helpu i wirio hyn.

Gan y cwmni credyd:
Os ydych wedi torri amodau eich cytundeb credyd (er enghraifft, ar ôl gyda'ch taliadau) rhaid i'r credydwr anfon rhybudd ddiffygdalu atoch cyn y gallan nhw gymryd mathau arbennig o achosion yn eich erbyn. Rhaid i'r rhybudd hwn nodi sut y torrwyd yr amodau, dweud wrthych sut i wella'r sefyllfa, pa achos y cymerir yn eich erbyn os na wnewch chi a rhoi terfyn amser i chi unioni'r cam. Os fethwch chi weithredu ar y rhybudd hwn, bydd hawl gan y credydwr i derfynu'r cytundeb, mynnu taliad cynnar ar y swm sy'n ddyledus, neu adfeddiannu nwyddau.

Gall benthyciwr ddod â **chytundeb cerdyn credyd** i ben drwy roi dau fis o rybudd ysgrifenedig. Gallant hefyd ddod â'ch hawl i ddefnyddio cerdyn credyd i ben naill ai'n barhaol neu dros dro, ond mae'n rhaid iddo eich hysbysu yn ysgrifenedig ac mae'n rhaid bod ganddo reswm da. Er enghraifft, gallai'r benthyciwr eich amau o dwyll neu mae'n bosib bod ganddo reswm i gredu na fyddwch yn gallu fforddio'r hyn sy'n ddyledus gennych.

Os gwrthodir eich cerdyn oherwydd eich bod dros yr isafswm, nid yw hyn yn golygu bod eich cytundeb wedi dod i ben. Dylech fod yn gallu cywiro'r sefyllfa drwy ad-dalu ychydig o'r arian sy'n ddyledus neu leihau'r swm yr ydych am ei wario

Gwrthod Credyd

Fedrwch chi **ddim mynnu** eich bod yn cael credyd. Mae'r mwyafrif o gredydwyr yn defnyddio **asiantaethau cyfeirnod credyd** a **chredyd raddio** i benderfynu rhoi credyd neu beidio. Nid oes rhaid i gredydwyr roi rhesymau am wrthod rhoi credyd, er bod y codau ymarfer y byddant yn eu dilyn yn awgrymu y dylid rhoi'r prif reswm dros wrthod.

Nid oes caniatâd i fenthycwyr wahaniaethu yn eich erbyn wrth benderfynu rhoi credyd neu beidio. Golyga hyn nad oes caniatâd iddynt wrthod rhoi credyd i chi o achos eich hil, rhyw, anabledd, crefydd, rhywioldeb neu ble rydych chi'n byw.
Sut bynnag, caniateir i gwmni credyd wrthod credyd i rywun dim ond o achos eu hoedran neu os oes ganddynt anableddau dysgu ac yn methu deall natur y cytundeb y byddant yn dod yn rhan ohono.

Os gwrthodwyd eich cais am gredyd a bod yna anghydfod ynglŷn â rhywbeth sydd yn eich ffeil cyfeirnod credyd, fe allwch chi achwyn i Swyddfa y Comisiynydd Gwybodaeth., Eu gwefan hwy yw www.ico.gov.uk.

Asiantaethau cyfeirnod credyd

Mae yna dair asiantaeth cyfeirnod credyd, sef, **Callcredit, Equifax** a **Experian,** sy'n casglu a storio gwybodaeth ynglŷn â sefyllfa ariannol pawb. Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn cynnwys manylion am ddyfarniadau llys,methdaliad, unrhyw eiddo a adfeddiannwyd, unrhyw gyfrifon credyd eraill sydd gennych a chofnod o bawb sydd wedi gofyn am wiriad credyd ar eich ffeil. Nid yw'r asiantaethau yn cadw gwybodaeth fanwl am eich cyfrifon banc a chymdeithas adeiladu. Ni chedwir manylion am achosion llys yn cynnwys gorchmynion atebolrwydd am dâl

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

cymunedol ac ôl-ddyledion treth gyngor. Fel arfer cedwir gwybodaeth am gredyd am gyfnod o chwe mlynedd. Fe allwch wirio'r wybodaeth a gedwir gan y cwmnïau cyfeirnod credyd trwy ysgrifennu atynt yn gofyn am gopi. Ar y llaw arall, fe allwch wneud cais ar-lein trwy'r wefan. Gallwch ofyn am gywiro unrhyw wybodaeth anghywir, ond allwch chi ddim gofyn am ddileu gwybodaeth gywir. Gallwch gysylltu ag Experian ar 0844 481 8000, Equifax ar 0844 335 0550, a Callcredit ar 0870 060 1414. Cyfeiriadau'r gwefannau yw: www.experian.co.uk, www.equifax.co.uk , a www.callcredit.co.uk

Asiantaethau Cywiro credyd

Byddwch yn ofalus o gwmnïau sy'n addo cywiro eich cofnod credyd am dâl. Nid oes ganddynt bwerau arbennig i wneud unrhyw beth na fedrwch wneud eich hunan.

Credyd raddio

Mae credyd raddio yn system o roi pwyntiau am bethau fel eich oedran, swydd, statws priodasol ac os ydych chi'n berchen eich cartref eich hun ai peidio. Os gwrthodwyd credyd i chi, fe allwch ofyn i'r benthyciwr am adolygu'r penderfyniad ac fe allech chi ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd yn berthnasol yn eich barn.

Dyledion cardiau Credyd

Os na allwch chi dalu'r arian sy'n ddyledus ar eich cerdyn credyd, rhaid i'r cwmni cerdyn credyd gadw at y rheolau a welir yn y cod ymarfer. Er enghraifft, os ydych yn chwilio am gyngor oddi wrth asiantaeth ddim-er-elw megis y Ganolfan Cyngor ar Bopeth, rhaid iddynt gadw rhag casglu'r ddyled am 30 diwrnod. Mewn rhai achosion, gall y cyfnod hwn fod yn fwy.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Taflen ffeithiau cymorth gyda dyled
- Cymorth gyda dyled
- Credyd
- Sampl o lythyron dyled
- Delio â phobl y mae arnoch arian iddynt

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 7 Mawrth 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2011 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr